

Mae'n debyg mai'r cyfeiriad cynharaf at Lanfihangel Rogiet yw'r un yn Llyfr Llandaf, sy'n dyddio o'r ddeuddegfed ganrif: 'Tref Perin id est Lann mihacgel maur'. Yn ôl y chwedl, Brochwael, brenin Gwent, a roddodd y tir hwn i'r eglwys er mwyn osgoi cael ei esgymuno. Roedd wedi cael ei orchymyn i dalu 'darn o aur yr un maint â'i wyneb' i'r esgob, ond ni allai gyflawni hyn felly rhoddodd Llanfihangel yn rhodd yn lle hynny. Bychan iawn a fu poblogaeth Llanfihangel erioed; yn wreiddiol nid oedd yr eglwys yn llawer mwy na chapel ar gyfer y castell cyfagos, y llys, ac ychydig o ffermydd. Ceir tystiolaeth archeolegol ar gyfer safle'r castell yn union i'r gorllewin o'r eglwys. Ceir o fewn yr eglwys ddwy fedd drawiadol (ond wedi eu difrodi'n ddrwg) a gredir iddynt fod yn rhai John ac Anna Martel, a fu farw c.1270. Y teulu Martel oedd arglwyddi maenor Llanfihangel, ond yn ddiweddarach daeth priodas rhwng teulu Martel a theulu Gamage o Rogiet â'r maenorau a oedd gynt ar wahân at ei gilydd; ac felly daeth 'Llanfihangel' yn 'Llanfihangel Rogiet' o hynny ymlaen. Ymysg y rhai a fu'n gysylltiedig â'r eglwys y mae William Wroth, arloeswr Anghydfurfiaeth Gymraeg, a bu i Henry Jones, dyfeisiwr blawd codi, briodi yma yn 1838.

Disgrifiad

Ar un adeg roedd capel, man claddu teulu'r Martel, wedi ei gysylltu i ochr ogleddol y gangell; mae'r arcêd rhwng y corff a'r ystlys yn dangos rhan o beth oedd yn borth bwaog gynt a oedd yn mynd ymlaen iddo. Tebygir i'r capel fynd yn adfail a chafodd ei ddymchwel c.1704. Ymysg y pethau nodedig o fewn yr eglwys ceir bedyddfaen fawr (nid yw'r dyddiad yn wybyddus), grisiau a mynedfa i lofft y grog gynt (noder hefyd y cerrig corbel a oedd yn cynnal y llofft), rhai beddau slab llawr diddorol o fewn y gangell, a chloch brin o'r bymthegfed ganrif, wedi ei bwrw yng Nghaerloyw.

Yn ffodus, roedd gwaith atgyweirio Fictorianaid ar yr eglwys trwy drugaredd yn 'ysgafn'; cyfyngwyd ar hyn gan ddiffyg arian. Yn wir, roedd yr eglwys ar gau ar gyfer addoli rheolaidd am rai blynyddoedd hyd 1897, pan gafodd y to ei atgyweirio yn iawn, wedi iddo gael ei glytio yn unig gynt yn 1891. Fodd bynnag, yn 1904, trwy frwdfrydedd y Rheithior bryd hynny, Archddiacon Conybeare Bruce, ailadeiladwyd yr ystlys ogleddol i'r corff (a oedd wedi cwmpo cyn hynny a'r bwâu hynafol wedi eu llenwi), dan arweiniad Henry Prothero, pensaer, o Cheltenham.



Bedd Anna Martel



Yr eglwys heddiw

Trwy ran helaeth o'r 19eg a'r 20fed ganrif rhannwyd addoli rheolaidd gydag eglwys Rogiet. Erbyn 1973, â phresenoldeb yn edwino, a'r problemau o gerdded i Lanfihangel o Rogiet (erbyn hyn prif ganolfan y boblogaeth) ar hyd ffordd a oedd yn mynd yn fwy prysur a pheryglus, penderfynwyd gau yr eglwys. Cynhaliwyd ambell i fedydd neu briodas yn yr eglwys hyd 1976, ond wedi hyn arhosodd yr eglwys yn wag a chan fwyaf yn ddigariad am dros ddeg ar hugain o flynyddoedd, ac yn dadfeilio fwyfwy. Yn 2008, breiniwyd Eglwys Sant Mihangel i ofal y Friends of Friendless Churches, a wariodd symiau sylweddol ar waith atgyweirio hanfodol. Heddiw, mae'r eglwys yn ganolfan gweithgareddau i Gymdeithas Hanes Lleol Caldicot, yn ffocws ar gyfer dysgu, addoli achlysurol, cerddoriaeth a chyfeillgarwch. Y mae ar agor bob dydd.

Eglwysi eraill sydd dan ofal y Friends ger Sant Mihangel, Llanfihangel Rogiet

Santes Fair, Llanfair Cilgedin

Ar lan yr afon Wysg. Enwog am ei phaneli sgraffiti yn dangos y Benedicite wedi ei osod yn y tirwedd lleol, gan Heywood Sumner. Ein heglwys mwyaf poblogaidd. Yn denu cannoedd o ymwelwyr bob blwyddyn (i gael mynediad cysylltwch â'r swyddfa).

Sant Sierôm, Llangwm Uchaf

Eglwys ganoloesol gan mwyaf wedi ei hatgyweirio gan J.P. Seddon 1863-9. Pwysig am y sgrin drawiadol o c.1500, ei wydr Arts and Crafts a'r teils llawr cymhleth (eglwys ar agor).



Pwy yw'r Friends?

Mae'r Friends yn caru eglwysi sydd heb eu caru. Hebom, byddent yn cael eu dymchwel, eu gwerthu fel tai, neu eu gadael yn angof. Ers 1957 rydym wedi ymgyrchu i eglwysi sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael eu cadw, fel "pregethau mewn carreg".

Yng Nghymru, ariennir ein gwaith gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru. Ond yn Lloegr rydym yn dibynnu ar haelioni cyfranwyr ac aelodau.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Yr ydym yn cadw'r eglwysi hyn er mwynhad y gymuned leol ac ymwelwyr. Rydym yn eu gwneud yn gadarn yn erbyn y gwynt a'r dŵr, yn ail osod toeau a ffenestri, yn trwsio peipiau glaw a gwaith carreg. Ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn agored, neu bod ceidwaid cyfeillgar lleol ar gael i gadw llygaid arnynt. Nid digyfaill mwyach!

Os gwelwch yn dda, fydddech yn fodlon ymuno a'n helpu?

Mae eu cynnal a'u cadw yn her anferth. Yr ydym yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi...

Ymuno

Ewch ar y we i ymweld â friendsoffriendlesschurches.org.uk. Wrth ymaelodi byddwch yn helpu i achub eglwysi. Yn ogystal, byddwch yn derbyn tri chylchlythyr hardd, yn llawn o wybodaeth am brosiectau cadwraeth, sgysiau, cyfarfodydd a llyfrau.




Cyfrannu

Anfonwch sic, yn daladwy i 'Friends of Friendless Churches' at FoFC, 70 Cowcross Street, London EC1M 6EJ.


Neu ewch at y wefan.

Yr ydym yn cymryd gofal i gadw ein costau gweinyddiaeth yn isel iawn. Â cyfraniadau yn uniongyrchol tuag at achub ac atgyweirio eglwysi. Gallai cymynrodd wneud gwahaniaeth fwy fyth. Siaradwch â'r Cyfarwyddwr ar 020 7236 3934.

www.friendsoffriendlesschurches.org.uk

Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol   

Rhif Elusen Gofrestredig : 1113097



FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES



Eglwys Sant Mihangel Llanfihangel Rogiet

cyflwyniad i'w hanes

Dewi Sant, Llangeview

Heb fod ymhell o Frynbuga. Y rhan fwyaf o'r 15fed ganrif, gyda sgrin a lloft y grog. Seddi, pulpud a sedd yswain fawr yn waith aruchel o'r ddeunawfed ganrif. Anghysbell a heddychlon (eglwys ar agor).

